



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# PRENTISIAETHAU. DEWIS DOETH.

Canllaw i Ddysgwyr.



Prentisiaethau  
Apprenticeships



UNDAE FANGYFRFAD  
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Cronfa Gymdeithasol Ewrop  
European Social Fund

978-1-80038-212-1



02

## BETH YW PRENTISIAETH?

Mae prentisiaethau yng Nghymru ar gael i unrhyw un dros 16 oed. Maen nhw'n cyfuno astudiaethau gyda hyfforddiant ymarferol mewn swydd. Byddi di'n cael profiad gwaith ymarferol, yn dysgu sgiliau newydd ac yn cael cymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol. Mae prentisiaethau yn rhoi cyfle i ti ennill cyflog wrth ddysgu.

Fel prentis, byddi di'n:

- gweithio gyda staff profiadol
- datblygu sgiliau penodol i'r swydd
- ennill cyflog a chael cyflog gwyliau
- cael amser i astudio (diwrnod yr wythnos fel arfer)
- rhoi hwb i dy botensial o ran ennill cyflog
- cael pecyn cymorth llawn, beth bynnag fo dy anghenion
- cael cyfle i wneud cynnydd clir drwy lefelau'r brentisiaeth

03



## PAM DEWIS PRENTISIAETH?

Gwna ddewis doeth a gwneud prentisiaeth.

Fel prentis, byddi di'n cael parch ac annibyniaeth, ac yn ennill cyflog tra byddi di'n astudio gyda choleg, prifysgol neu ddarparwr hyfforddiant dibynadwy.

Boed y cwmnïau'n rhai rhyngwladol neu leol, mae cyflogwyr yn chwilio am staff sydd â'r sgiliau i ddiwallu anghenion eu busnes, yn enwedig yn y sector STEM.

Mae prentisiaethau ar gael mewn amrywiaeth o swyddi, ac maen nhw'n rhoi cyfle i ti gael profiad ymarferol a datblygu'r sgiliau angenrheidiol er mwyn symud ymlaen yn y maes o dy ddewis.



Does dim ots os wyt ti wedi gadael yr ysgol heb lawer o gymwysterau, wedi cael tomen o gymwysterau TGAU, newydd adael y coleg, neu wedi graddio. Mae lefel prentisiaeth addas i bob unigolyn.

Prentisiaeth/Lefel	Gweithio neu Astudio tuag at gymwysterau cydnabyddedig yn y diwydiant
Prentisiaeth Sylfaen - Lefel 2	5 TGAU / NVQ Lefel 2
Prentisiaeth - Lefel 3	2 Safon Uwch / NVQ Lefel 3
Prentisiaeth Uwch - Lefel 4/5	HNC / HND / Gradd Sylfaen
Prentisiaeth Gradd - Lefel 6	Gradd Baglor Lefel 5 / NVQ Lefel 4

Mae prentisiaethau ar gael yn Gymraeg ac yn ddwyieithog, sy'n golygu dy fod yn gallu hyfforddi a dysgu yn yr iaith o dy ddewis.

Mae prentisiaethau ar gael i bobl o bob gallu. Bydd dy gyflogwr yn gweithio gyda ti i wneud yn siŵr dy fod yn cael cymorth pwrpasol sy'n diwallu dy anghenion, er mwyn i ti allu gweithio'n hyderus.

## SECTORAU I'W HYSTYRIED

Amaethyddiaeth a'r Amgylchedd

Arlwyo a Lletygarwch

Busnes a Rheolaeth

Bwyd a Diod

Diwylliant, Dylunio a'r Cyfryngau

Gwallt a Harddwch

Gwasanaethau Adeiladu

Gwasanaethau Addysg a Gwybodaeth

Gwasanaethau Amddiffynnol

Gwasanaethau Cyfreithiol ac Ariannol

Gwasanaethau Cyhoeddus

Gwasanaethau Eiddo

Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol

Gwasanaethau Gofal Plant

Gwasanaethau Gofal Iechyd

Gweithgynhyrchu Uwch a Deunyddiau

Gwyddorau Bywyd

Manwerthu

Moduron, Cludiant a Logisteg

Peirianeg

Technoleg Ddigidol

Teithio, Twristiaeth a Hamdden

Ynni



## SUT I GOFRESTRU?

08

Os wyt ti wedi cael dy ysbrydoli gan y cyfle i ennill cyflog wrth ddysgu, gwna ddewis doeth a mynd i gael mwy o wybodaeth neu chwilio am brentisiaeth addas i ti:

Cer i [llyw.cymru/prentisiaethau-dewis-doeth](https://llyw.cymru/prentisiaethau-dewis-doeth)  
Neu fffonia **0800 028 4844**.

Yn y cyfamser, os wyt ti'n teimlo nad wyt ti'n hollol barod am brentisiaeth, cer i [cymrungweithio.llyw.cymru](https://cymrungweithio.llyw.cymru) i gael gwybod sut mae dod o hyd i gefnogaeth briodol, dysgu sgiliau newydd, a chael cyngor ar waith a llunio CV.

Gall cyflogwyr yng Nghymru ddysgu mwy am fanteision recriwtio Prentis drwy fynd i [businesswales.gov.wales/skillsgateway/cy/rhaglenni-sgiliau-hyfforddiant/prentisiaethau](https://businesswales.gov.wales/skillsgateway/cy/rhaglenni-sgiliau-hyfforddiant/prentisiaethau)  
Neu drwy fffonio **03000 6 03000**.